OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1937 (Cy.206)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau i Drefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*29 Gorffennaf 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*3 Awst 2011*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) ac (11) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau i Drefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2011 ac mae'n dod i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004

2. Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn erthygl 3(1), ar ôl y diffiniad o "y Ddeddf", mewnosoder—

> "ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ŵyl banc o fewn ystyr "*bank holiday*" yn adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**);"; a

(b) yn erthygl 4(3) yn lle "na phythefnos" rhodder "nag ugain o ddiwrnodau gwaith".

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) O.S. 2004/2915 (Cy.254) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3239 (Cy.244).
(**3**) 1971 p.80.